**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** **HSS(2)-02-03 (p.3)**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher 25 Mehefin 2003**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Adolygiad polisi ar Gymryd Rhan mewn Chwaraeon ac Ymarfer Corff**

**Adroddiad Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cyntaf**

## Diben

Bydd y Pwyllgor yn trafod casgliadau ac argymhellion adroddiad y Pwyllgor Diwylliant. Bydd y Pwyllgor yn ystyried ei rôl o ran sicrhau y gweithredir yr argymhellion. Gallai hyn olygu gwaith pellach i gynghori'r Gweinidog ar ddatblygu polisïau, nodi a lledaenu arfer da a/neu adolygu hynt gweithredu'r argymhellion ar ôl cyfnod o flwyddyn neu ddwy.

## Y Cefndir

Cyflwynwyd yr adroddiad gerbron y Cynulliad ar 25 Mawrth a disgwylir cynnal trafodaeth arno yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Gorffennaf.

Dim ond rhai o argymhellion yr adroddiad sy'n cyfeirio'n benodol at gamau y gellid eu cymryd i gynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff er lles eu hiechyd. Serch hynny, mae'r trosolwg yn cydnabod y manteision ac yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mabwysiadu dull cydlynol a strategol i annog pobl i gymryd rhan. Dylai hyn gynnwys pennu targedau clir y gellir eu mesur ym mhob un o'r meysydd polisi sy'n cyfrannu at y strategaeth.

Mae argymhellion eraill yn tynnu sylw at bwysigrwydd annog mwy o fenywod i gymryd rhan yn strategaeth chwaraeon Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chynllun Gweithredu Ffyrdd Iach a Gweithgar o Fyw (adran 2.4.2). Mae Adran 2.5.1 yn argymell rhoi blaenoriaeth i gael pobl hyn i gymryd rhan oherwydd y manteision iechyd a ddaw yn sgil hynny.

Yn ddiweddar fe wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Ffyrdd Iach a Gweithgar o Fyw [HSS-22-02(p.6)] Mae'r

ddogfen hon yn nodi rhaglen o gamau i'w cymryd i hybu bywyd dyddiol mwy gweithgar ymhlith y mwyafrif o'r sectorau o'r boblogaeth sydd ar eu heistedd yng Nghymru, ac mae wedi'i gynllunio i ategu mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru sy'n canolbwyntio ar chwaraeon sydd wedi'u trefnu a chwaraeon cystadleuol. Mae'r Cynllun Gweithredu wedi cael ei ddiwygio yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad a bydd yn cael ei lansio ar 23 Gorffennaf.

**Ystyriaeth y Pwyllgor**

Efallai yr hoffai'r Pwyllgor wneud argymhellion ar y sgôp ar gyfer targedau yn y meysydd sy'n ymwneud â'r manteision iechyd a ddaw yn sgil cymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff.  Efallai yr hoffai'r Pwyllgor hefyd ystyried p'un a ddylai dreulio amser yn nes ymlaen yn cynghori'r Gweinidog ar ddatblygu strategaethau a pholisïau i hyrwyddo ymarfer corff i grwpiau o'r boblogaeth a nodwyd yn yr adroddiad.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
Mehefin 2003